

CYFARFOD:	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD:	12 GORFFENAF 2021
TEITL:	BUDDSODDI CYFRIFOL
PWRPAS:	Diweddarau Datganiad Buddsoddi Cyfrifol Cronfa Bensiwn Gwynedd
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno datganiad diwygiedig Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa. Mae'r datganiad yma wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar Fehefin 24ain.

2. DATGANIAD GAN Y GRONFA

- 2.1 Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi bod yn gweithio ers peth amser bellach i sicrhau fod ein hymgynghorwyr a'n rheolwyr asedau yn edrych i fuddsoddi mewn asedau cynaliadwy. Ym mis Chwefror 2021, gyda phwysigrwydd y maes yn cynyddu, wnaethom gyflwyno Datganiad Buddsoddi Cyfrifol a oedd yn darparu safbwynt y Gronfa o ddad-fuddsoddi o danwydd ffosil.

3. DATBLYGIADAU

- 3.1 Mae nifer o ddatblygiadau wedi bod ers mis Chwefror ac felly rydym wedi diweddarau'r datganiad, mae'r newidiadau wedi ei goleuo yn felyn yn Atodiad 1 a ceir rhagor o wybodaeth isod:
- Cronfa Global Growth (17% o Gronfa Gwynedd) - soniwyd ym mis Chwefror bod Baillie Gifford wedi datblygu cronfa sydd yn dad- fuddsoddi o gwmnïau echdynwyr tanwydd ffosil a darparwyr gwasanaeth tanwydd ffosil (penderfyniad Pwyllgor Pensiynau, 21 Ionawr 2021) a rŵan mae Pzena wedi penderfynu gwerthu stociau mewn cwmni a oedd yn cyfrannu i 35% (ar 31 Rhagfyr 2020) o allyriadau carbon y gronfa benodol yma.
 - Cronfa Global Opportunities (17% o Gronfa Gwynedd)- mae'r 'decarbonisation overlay' gan Russell Investments sy'n lleihau'r ôl-troed carbon y gronfa yma o 25% rŵan yn weithredol.
 - Russell Investments (Darparwr Datrysiad Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru) – wedi datgan eu bod am gyflawni safon o allyriadau carbon net-sero yn eu portffolios buddsoddi yn fyd-eang erbyn 2050.
 - Meincnod ESG GRESB – cyflwynwyd ym mis Chwefror bod UBS yn safle rhif 1 yn ei grŵp o gyfoedion ar gyfer ei sgôr 'ESG GRESB' yn 2020, ond ers hynny rydym wedi cadarnhau bod Black Rock yn safle rhif 2.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r datganiad ac i'r Cadeirydd lofnodi'r datganiad.